O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2016 Rhif 959 (Cy. 235)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 22 (Hen Golwyn) i Gyffordd 23 (Llanddulas), Bwrdeistref Sirol Conwy) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2016

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *23 Medi 2016* |
| *Yn dod i rym* | *3 Hydref 2016* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Caer – Bangor (yr A55) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd yr holl draffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 3 Hydref 2016 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 22 (Hen Golwyn) i Gyffordd 23 (Llanddulas), Bwrdeistref Sirol Conwy) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2016.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 3 Hydref 2016 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road")* yw'r darnau o gefnffordd yr A55 a slipffyrdd rhwng Cyffordd 22 (Hen Golwyn) a Chyffordd 23 (Llanddulas) ym Mwrdeistref Sirol Conwy a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r gefnffordd.

**Cymhwyso**

**4.** Nid yw'r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y'i dangosir gan arwyddion traffig.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 23 Medi 2016

*Nina Ley*
Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30(1) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn wedi eu rhoi bellach i Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLEN

### Gwahardd Cerbydau Dros Dro

1. Y darn cyfan o gerbytffordd tua'r gorllewin yr A55 sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r

gorllewin wrth Gyffordd 23 (Llanddulas) hyd at ganolbwynt Cyffordd 22 (Hen Golwyn).

2. Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 23 (Llanddulas).

3. Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 22 (Hen Golwyn).

4. Y darn cyfan o gerbytffordd tua'r dwyrain yr A55 sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 22 (Hen Golwyn) i bwynt 300 metr i'r gorllewin o drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 23 (Llanddulas).

5. Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 22 (Hen Golwyn).

6. Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 23 (Llanddulas) am bellter o 380 o fetrau.